Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanandras

Heol Slough
Llanandras
Powys
LD8 2NH

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanandras

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanandras |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 169 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 142 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 11.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 4.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 13/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/06/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Llanandras yn amgylchedd cynhwysol ac anogol lle caiff pob disgybl ei werthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn mynychu'n rheolaidd ac yn dangos lefelau uchel o barch at staff ac ymwelwyr. Er bod perthnasoedd rhwng oedolion a disgyblion yn gryf a bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am bryderon ynghylch diogelu yn addas o gadarn.

Mae'r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm eang a diddorol sy'n cefnogi gwybodaeth disgyblion am eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae'r ysgol wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'i chymuned ac mae disgyblion yn elwa ar ystod ddiddorol o ymweliadau, ymwelwyr a chyfleoedd rheolaidd i drafod materion moesol a chymdeithasol. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi gyda brwdfrydedd ac yn awyddus i ddysgu. Er bod yr ysgol yn elwa ar amgylchedd awyr agored helaeth, ni chaiff ei ddefnyddio'n ddigon da ar hyn o bryd.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau siarad, darllen a digidol. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson, ac mewn tua hanner y gwersi, mae disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Er bod staff yn hyrwyddo amgylcheddau dysgu tawel ac yn defnyddio ystod fuddiol o gwestiynau yn ystod gwersi, mae lefel yr her yn amrywiol, ac nid yw'r adborth yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu ac nid ydynt yn datblygu eu medrau ysgrifennu, mathemategol a rhifedd yn ddigon da dros gyfnod. Mewn dosbarthiadau iau, nid yw gweithgareddau'n adlewyrchu ethos dysgu sylfaen yn ddigon da, ac ar draws yr ysgol, nid yw profiadau bob amser yn gweddu i ystod lawn anghenion y disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol nac yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu medrau arwain.

Mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n galed i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at y Gymraeg ac maent yn frwdfrydig wrth ddysgu'r iaith.

Nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn rhoi dealltwriaeth ddigon clir i arweinwyr o wendidau mewn addysgu a dysgu. Er bod llywodraethwyr yn hynod gefnogol ac yn rheoli adnoddau'n dda, nid yw eu rôl mewn gwerthuso perfformiad yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar o argymhellion i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Mynd i'r afael â'r pryder ynghylch diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2. Gwella arweinyddiaeth a chryfhau ansawdd hunanwerthuso i nodi, blaenoriaethu a mynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu gwella fwyaf

A3. Gwella ansawdd yr addysgu i sicrhau bod disgyblion yn cael her ac adborth effeithiol i'w helpu i wneud cynnydd cryfach yn eu dysgu

A4. Gwella medrau ysgrifennu a mathemategol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Llanandras yn gymuned ddysgu anogol a chefnogol. Mae'r pennaeth wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol a chydweithredol â disgyblion, rhieni, staff a llywodraethwyr, ac mae'r cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol yn effeithiol. Mae staff yn rhoi blaenoriaeth i les disgyblion ac yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn gofal.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn mynychu'n rheolaidd ac yn rhyngweithio'n gydweithredol â'i gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd mewn gwersi, gan ddal ati i ganolbwyntio'n dda. Er bod llawer o ddisgyblion yn dangos aeddfedrwydd wrth roi eu barn a thrafod agweddau ar eu dysgu, caiff tasgau eu harwain gan oedolion, ar y cyfan, ac nid yw disgyblion yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu hannibyniaeth na'u gwydnwch wrth gwblhau gweithgareddau neu ddatrys problemau yn y dosbarth. Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o brosiectau cymunedol, er enghraifft helpu yn y llyfrgell leol a chodi sbwriel yn yr ardal leol. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyfrifol.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod briodol eang o brofiadau i ddisgyblion ar draws pob maes dysgu a phrofiad. Mae ystod effeithiol o ymweliadau ac ymwelwyr fel perfformwyr opera a dawns yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Ceir cyfleoedd cryf i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliannau ac amrywiaeth, a materion byd pwysig fel helyntion ffoaduriaid sy'n dod i'r Deyrnas Unedig. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn elwa ar brofiadau dysgu sy'n eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth ysbrydol a moesol a'u gwybodaeth am hawliau dynol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) ar adeg ddatblygu gynharach.

Pan mae'r addysgu'n effeithiol, mae athrawon yn defnyddio holi yn fedrus i asesu dealltwriaeth disgyblion yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog ac yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer dysgu'r disgyblion bob amser, ac mae lefel yr her a'r adborth a gaiff disgyblion yn rhy amrywiol. Nid yw athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion wella'u gwaith a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gallu cyfrannu eu syniadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn gweddu'r dysgu'n ddigon agos i gamau nesaf y disgyblion mewn dysgu, ac nid yw athrawon disgyblion iau yn darparu profiadau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion dysgu sylfaen yn ddigon da. Nid ydynt yn galluogi disgyblion i gael y rhyddid sydd ei angen arnynt i archwilio'u dysgu neu ddilyn eu diddordebau ac mae'n cyfyngu ar eu mynediad at ddysgu gwerthfawr yn yr awyr agored. Er bod grwpiau arweinyddiaeth disgyblion fel arweinwyr digidol a'r Criw Cymraeg wedi'u sefydlu ar draws yr ysgol, maent yn aml yn cael gormod o gyfarwyddyd gan oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau siarad a gwrando tra datblygedig. Mae staff yn adeiladu'n effeithiol ar y medrau cynnar hyn ac yn cynllunio cyfleoedd addas i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn siarad â hyder ac aeddfedrwydd gan ddefnyddio geirfa eang ac amrywiol. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud trwy'r ysgol, ac erbyn Blwyddyn 6, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau defnyddio medrau darllen mwy datblygedig yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion iau yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn adeiladu ar y medrau cynnar hyn yn llwyddiannus. Er bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o sut i strwythuro ysgrifennu at ystod addas o ddibenion, nid ydynt yn gwella'u sillafu a'u gramadeg yn effeithiol. Nid ydynt yn cael cyfleoedd digonol i gymhwyso'u medrau llythrennedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, ac mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar eu cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol. Wrth iddynt fynd yn hŷn, maent yn defnyddio ystod addas o ddyfeisiau a phlatfformau digidol i gefnogi ac ymestyn eu dysgu, ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel ar-lein.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol yn briodol. Maent yn meithrin dealltwriaeth addas o rif a sut i wneud cyfrifiadau cywir yn y pen ac yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent o ran datblygu eu dealltwriaeth fathemategol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cael trafferth defnyddio a chymhwyso'u medrau rhifedd i ddatrys problemau mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae'r ysgol wedi rhoi diwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar waith yn effeithiol. Mae prosesau ar waith i nodi disgyblion ag ADY a chynnwys disgyblion a'u teuluoedd yn bwrpasol mewn cymorth. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i gynorthwyo disgyblion ag ADY, ac mae ystod fuddiol o strategaethau ymyrraeth ar waith i helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY i wneud cynnydd tuag at eu targedau personol.

Mae arweinwyr yn cynllunio cylch o weithgarwch monitro trwy gydol y flwyddyn. Maent yn defnyddio gwerthusiadau o berfformiad yr ysgol i gynllunio blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mewn ychydig o achosion, mae'r gwaith hwn wedi arwain at newidiadau cadarnhaol. Mae arweinwyr yn darparu profiadau dysgu proffesiynol addas ar gyfer staff addysgu a staff cymorth, sy'n cysylltu ag ychydig o flaenoriaethau gwella'r ysgol, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm a chefnogi lles disgyblion. Mae staff cymorth, er enghraifft, wedi adeiladu ar ddysgu proffesiynol i ddatblygu ymyriadau yn seiliedig ar chwarae sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion targedig siarad am eu teimladau. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw prosesau hunanwerthuso yn ddigon dibynadwy ac nid yw arweinwyr yn nodi agweddau

pwysig ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella. Nid ydynt bob amser yn cynllunio dysgu proffesiynol yn ddigon strategol i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen.

Mae llywodraethwyr yn ymroddgar ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gynnydd yr ysgol tuag at flaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu'r Gymraeg. Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddathliad yr ysgol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, ac o ganlyniad, mae medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn datblygu'n briodol gyda hyder cynyddol. Mae'r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yn effeithlon, hefyd. Maent yn gwneud penderfyniadau synhwyrol wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i sicrhau cymorth teilwredig ar gyfer lles a medrau llythrennedd disgyblion targedig. Fodd bynnag, nid yw eu rôl mewn hunanwerthuso wedi'i datblygu'n ddigonol, ac nid yw'n eu galluogi i herio cynnydd tuag at flaenoriaethau gwella yn ddigon cadarn.

At ei gilydd, mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant diogelu priodol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd ganddynt bryder. Fodd bynnag, mae gormod o staff yn ansicr ynglŷn â'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth roi gwybod am bryder ynghylch diogelu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder a thynnwyd sylw'r awdurdod lleol at hyn.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025